



Capel y Tabernacl, Hydref 22ain, 2017



**Mae croeso arbennig i ymwelwyr a ffrindiau sydd wedi ymuno â ni.** Bydd yr oedfa yng ngofal Lowri Roberts ac Emlyn Davies, gyda Rhiannon Humphreys yn cyfeilio. Diolch i Siân a Pens am groesawu wrth y drws y bore 'ma.

### Y SULIAU NESAF

**Hydref 29** – Y Parchg. Gethin Rhys a Bethan Roberts, cyfeilio Eleri Huws

**Tachwedd 5** – Delwyn Sion, gyda Nia Williams yn llywyddu

**Tachwedd 12 Oedfa Sul y Cadoediad, yng ngofal Ceri Anwen a'r Parchg Aled Edwards.** Hefyd bydd taith ar fws i **Bantycelyn (gweler isod)**

**Tachwedd 19** - cwrdd teuluol gyda Wyn a Mari Jones

### Sul Arbennig

Mae pererindod wedi ei threfnu i Bantycelyn ddydd Sul Tachwedd 12fed. Bydd bws yn gadael depot Edwards ym Mhentre'r Eglwys am 10 y bore ac yna'n dychwelyd erbyn 7 yr hwyr. Rhowch wybod i Rhiannon Humphreys (07861 753945) neu Gwerfyl Morse (02920 623365/0788 761949/ [gwerfyl@tinyworld.co.uk](mailto:gwerfyl@tinyworld.co.uk)) os hoffech ymuno â ni. Croeso cynnes i bawb.

**Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org)**

**neu Gwilym Huws: 07710 237327**

**[gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk/)**

**Cyhoeddiadau: [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com)**

**Cyfarfod Blynyddol 2017:** Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn yr oedfa fore Sul 26 Tachwedd. Daeth yn amser unwaith yn rhagor i enwebu aelodau newydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar ffurflenni enwebu ar gael yng nghyntedd y Capel neu gan Gwilym Huws, a dylid eu dychwelyd wedi eu harwyddo .....



Bydd ein casgliad ar gyfer Adref yn ehangu dros y misoedd nesa. Yn ogystal â derbyn nwyddau a thrugareddau ar gyfer y siop, sy'n cynhyrchu cyllid iddyn nhw ar gyfer eu gwaith yn ymgeleddu'r di-gartref, fe fyddwn ni'n chwilio am y canlynol hefyd: dillad, offer (e.e cot, buggy,) a nwyddau ar gyfer babanod a phlant, dillad oedolion, dillad gwely i oedolion, plant, a babanod a sachau cysgu nwyddau hylendid, manion defnyddiol i'r cartref

Mae Adref yn defnyddio popeth dderbynian nhw - i helpu teuluoedd a'r di-gartref, neu i greu cyllid ar gyfer hynny. Maen nhw hefyd yn gweithio'n galed i adfer hyder a hunan barch yn y bobl ddi-gartref, gyda golwg ar sicrhau dyfodol dedwyddach iddyn nhw. Gallwch adael popeth yn llofft y capel, fel arfer.

### ELUSENNAU 2017

#### YSGOL Tŷ COCH

Fe fyddwn ni'n cefnogi Ysgol Tŷ Coch eto eleni hefyd. Mae Ysgol Tŷ Coch, Tonteg, yn darparu addysg bwrpasol, berthnasol, bersonol, i blant 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys, a hynny mewn awyrgylch ddiogel, ofalgar sy'n eu hysgogi i gyrraedd eu potensial. **DEFNYDDIWCH YR AMLENNI BROWN I DDANGOS EICH CEFNOGAETH**

.....naill ai i Gwilym neu i'r  
Cadeirydd, Wendy Reynolds, erbyn dydd Sul  
5 Tachwedd.

ELUSENNAU 2018

**Mae'n** amser unwaith eto i ni ddewis  
elusennau ar gyfer yr amlenni brown, er  
mwyn eu cyflwyno gerbron Cyfarfod  
Cyffredinol y Capel (uchod)  
Awgrymiadau o g y dda i:  
John Llew [johnllewt@hotmail.com](mailto:johnllewt@hotmail.com)  
neu at Ann Dwynwen  
ann.pentyrch@ [btinternet.com](mailto:btinternet.com)  
Mae rhestr o elusennau eleni ar wefan y  
capel.

### **Cwblhau'r Jig-so**

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod y tai  
bach o dan y capel yn awr ar agor yn ystod  
oedfaon neu ddigwyddiadau eraill yn y  
capel. Diolch yn fawr iawn i Pens a John  
Llew, y ddau wirfoddolwr, fu wrthi'n  
ddiwyd iawn dros fisoedd yr haf yn eu  
hatgyweirio a'u peintio. Bellach gallwn  
gyhoeddi bod gwaith atgyweirio'r capel  
wedi ei gwblhau'n derfynol!

### **Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos  
Fawrth 24 Hydref. Materion i'w codi  
at: Ysgrifennydd, Gwilym Huws  
([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443  
225205) erbyn yfory fan bellaf.

### **Tafod y Tab**

Cyhoeddir y rhifyn nesaf ym mis Ionawr 2018.  
Rydym yn chwilio am wirfoddolwr neu  
wirfoddolwyr sy'n barod i weithredu fel  
golygydd/ion y rhifyn. Rhowch wybod i Gwilym  
Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)) erbyn diwedd  
mis Hydref os medrwch ein cynorthwyo.

### **TOO GOOD TO WASTE a TRACK 2000**

Mae'r ddwy elusen yn casglu celfi ac  
offer addas i'w hail-ddefnyddio o  
gartrefi pobl RhCT a Chaerdydd sy am  
waredu eiddo mewn ffordd gyfrifol.  
Maen nhw'n eu defnyddio i helpu'r  
gymuned, drwy eu .....trwsio a'u caboli  
ar gyfer eu gwerthu yn eu siopau am  
bris rhesymol i gyllido eu gwaith  
cymunedol, neu eu rhoi i bobl  
anghenus.

**Pobl Caerdydd:** Mae Track2000 yn  
cynnig gwasanaeth casglu i drigolion  
Sir Caerdydd, ond yn codi tâl bychan yn  
dibynnu ar faint y casgliad.  
[www.track.2000.org.uk](http://www.track.2000.org.uk)

**Pobl RhCT:** Mae Too Good To Waste  
yn gwasanaethu RhCT, ar 01443  
680090  
[www.toogoodtowaste.co.uk](http://www.toogoodtowaste.co.uk)

### **Merched y Tabernacl**

Bore Mawrth, Tachwedd 14 yn  
y Ganolfan am 10.30  
'Paratoi ar gyfer y Nadolig' gyda  
Marian Evans.

### **CYLCH CADWGAN**

Nos Fercher 15 Tachwedd am  
8.00pm

VAUGHAN RODERICK

yn siarad ar y testun:

'William Williams Pantycelyn'  
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf

**Llongyfarchiadau gwresog i Eleri  
Middleton a Tom Curran ar eu priodas  
ddoe. Gall Helen nawr gysgu am  
bythefnos!**